

# PERCHNOGAETH GYMUNEDOL

ARLOESI  
GWYNEDD  
WLEDIG

Mae disgwyl cynyddol yn ddiweddar ar gymunedau i gymryd cyfrifoldeb am asedau neu wasanaethau lleol yn sgil toriadau i'r pwrs cyhoeddus.

Yn sgil yr uchod mae Arloesi Gwynedd Wledig (AGW) yn awyddus i gydweithio gyda **3 cymuned** yng Ngwynedd er mwyn treialu a dysgu am fodolau gwahanol o drosglwyddo gwasanaethau i drigolion lleol. **Prif nod y gwaith fyddai ceisio cyfrannu tuag at greu mentrau cymunedol fydd yn fecanweithiau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r dyfodol.**

Rydym yn croesawu ceisiadau gan **3 cymuned** sydd yn fodlon ac yn awyddus i gydweithio gyda ni. Rydym yn edrych i gefnogi cymunedau sydd â diddordeb yn y broses o drosglwyddo gwasanaethau llywodraeth leol i gymunedau. Noder nad oes bwriad cydweithio gyda 3 cymuned sydd am achub neu ddarparu'r un math o wasanaeth.

Noder y rhoddir blaenoriaeth i gymunedau sydd am fynd i'r afael a'r her heb fynd i geisio am grantiau sylweddol. Nid rôl AGW fydd helpu gyda ceisiadau ariannol. Gweler isod amlinelliad o'r cynnig gan AGW:

## Cymuned ddaearyddol sydd yn awyddus i:

Berchnogi gwasanaeth gan y Cyngor  
(Gall y gymuned eisoes fod wedi cychwyn trafodaethau gyda'r Cyngor Sir neu fod yn ystyried y syniad am y tro cyntaf)

## Mae gofyn i'r grŵp ymrwymo i:

- \* gydweithio gyda AGW (disgwylir i'r broses fod yn daith yn hytrach na gweithrediad tymor byr)
- \* dreialu dulliau newydd o weithredu
- \* rannu arfer da mewn amryw ffyrdd e.e. ffilm, proses arfarnu

## Dylai'r grŵp ddangos:

- \* Cynrychiolaeth eang
- \* Cefnogaeth gan y gymuned
- \* Tystiolaeth o weithredu blaenorol

## Gall AGW gynnig:

- \* Cefnogaeth i adnabod modelau addas
- \* Cefnogaeth i dreialu cynlluniau peilot
- \* Arbenigeddau yn ôl yr angen e.e. cymorth busnes, digidol, twristiaeth, technegau datrys problemau arloesol

Dyddiad  
Cau: 5 o  
Fedi 2016

Ymholiadau: Sioned Morgan Thomas neu  
Zoe Pritchard

01766 515946 / 01766 51405  
zoe@arloesigwyneddwledig.com